TAG UG/UWCH

2020U30-1

Z22-2020U30-1

**DYDD MAWRTH, 24 MAI 2022 – PRYNHAWN**

***TUESDAY, 24 MAY 2022 – AFTERNOON***

# CYMRAEG: AIL IAITH – UG uned 3
## DEFNYDDIO IAITH A BARDDONIAETH
## (Papur Ysgrifenedig)

2 awr

*2 hours*

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

***ADDITIONAL MATERIALS***

*A WJEC pink 16-page answer booklet.*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn sy'n cael ei roi i chi.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*Write your answers in the separate answer booklet provided.*
*The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*
*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(S20-2020U30-1)

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** (i) Darllenwch y neges destun isod. Cyfieithwch y neges o'r Saesneg **i'r Gymraeg**. [10]

| At: Y Chweched Dosbarth |
| --- |
| Oddi wrth: Mrs Jones |
| 1. Would you like to go to the theatre next week? Bring £10 tomorrow and I will buy the tickets.<br>2. Finish your homework by Friday. |

(ii) Mae'r adroddiad newyddion isod yn sôn am ffair haf arbennig yn Sain Ffagan heddiw. Rhaid i chi ysgrifennu'r adroddiad **ar ôl** i'r ffair haf ddigwydd.

Newidiwch y **10 ffurf** sydd wedi eu rhifo a'u tanlinellu **i'r gorffennol**.
Peidiwch â chopïo'r darn isod. [20]

> [1]Bydd ffair haf arbennig yn Sain Ffagan, Caerdydd, [2]heddiw. [3]Mae disgwyl llawer o bobl i ymweld â'r amgueddfa dros y penwythnos. Rachel Pierce sy'n rhedeg y siop losin yn yr amgueddfa. [4]Mae hi'n dweud, [5]'Rydw i'n agor y siop am 10 gan obeithio am dywydd braf a heulog. [6]Rydw i wedi archebu digonedd o hufen iâ a diodydd oer i'r siop. [7]Does dim angen i bobl ddod ag ymbarel i'r ffair achos [8]dydyn ni ddim yn disgwyl glaw. [9]Rydyn ni'n gobeithio gweld llawer o ymwelwyr yn mwynhau diwrnod yn yr amgueddfa. [10]Mae rhywbeth i bawb yma!'

(iii) Mae eich dosbarth Cymraeg eisiau trefnu taith ysgol i Ogledd Cymru. Chi sy'n trefnu'r daith. Ysgrifennwch e-bost at: Y Rheolwr, Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, i holi am y llety a'r cyfleusterau yng Nglan-llyn a'r ardal. [20]

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen.

Rhoddir marciau am ysgrifennu cywir. Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus cyn dechrau.

Gallwch sôn am:

- Pryd hoffech chi aros yn y gwersyll?
- Am faint hoffech chi aros? (e.e. penwythnos, wythnos)
- Faint o bobl sy'n dod ar y daith ysgol?
- Pa weithgareddau hoffech chi wneud yn ystod y dydd? (e.e. dringo, cwrs rhaffau, adeiladu rafft, canŵio a hwylio)
- Beth hoffech chi wneud yn yr ardal? (e.e. mynd i ardal Tryweryn, dringo'r Wyddfa, ymweld â Chastell Caernarfon, mynd i bentref Portmeirion, mwynhau ym mharc antur *ZipWorld*).

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Darllenwch yn ofalus y cwpledi canlynol o'r gerdd *Newyddion* gan Tudur Dylan Jones ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Gallwch glywed plant yn gweiddi'n groch
am gymorth cyntaf, am weld y groes goch.

Mae'r byd ar ben yng nghanol y glaw,
ond does neb wedi cyrraedd i roi help llaw

(i) Beth ydy ystyr y dyfyniad uchod o'r gerdd *Newyddion*? Sut mae'n berthnasol i weddill y gerdd?

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen. [25]

(ii) Yn y gerdd *Newyddion* mae'r bardd yn defnyddio'r technegau canlynol:

- odli
- cyflythrennu
- delweddau

Trafodwch pa mor effeithiol ydy'r technegau uchod yn y gerdd *Newyddion*.

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen. [25]

(iii) Mae'r gerdd yn trafod sut rydyn ni'n ymateb i drychinebau ar draws y byd. Beth ydy'ch barn chi am hyn?

Dylech chi sôn am:

- y trychinebau rydych chi'n eu gweld ar y newyddion
- eich syniadau chi am helpu pobl sy'n dioddef
- gwaith elusennau fel y Groes Goch ac Oxfam.

Ysgrifennwch tua un ochr tudalen. [20]

**DIWEDD Y PAPUR**